Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2016-2020

Hawdd ei ddeall

Cyhoeddwyd Ebrill 2016

Cydraddoldeb i bobl yng Ngogledd Cymru

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o ddogfen sydd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o'r enw

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020

Gallwch gael y ddogfen yn llawn

Ar y we

Os ydych eisiau cael y ddogfen hon mewn ffurf arall

Print mawr

Print mawr

Braille

CD

Cysylltwch â'r swyddog cydraddoldeb

Ffôn 01745 535250

E-bost sue.jones@nwales-fireservice.org.uk

Beth ydy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol?

Mae cydraddoldeb yn golygu trin pawb yn deg

Ystyr amrywiaeth ydy bod pobl yn cael bod yn wahanol i'w gilydd

Beth ydy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol?

Cynllun ydy dogfen sy'n dweud beth fydd yn digwydd

Cael eich trin yn deg

Dylai pawb gael ei drin yn deg

Mae gan bawb hawl i gael y pethau sydd eu hangen arnynt er mwyn

- Bod yn iach
- Bod yn ddiogel
- Cael eu parchu

Pam cael Cynllun Cydraddoldeb Strategol?

Mae gan y Gwasanaeth Gynllun Cydraddoldeb Strategol er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gwneud popeth yn ôl y gyfraith

Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru drin pawb yn deg

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn helpu i wneud yn siŵr fod y Gwasanaeth yn trin pawb yng Ngogledd Cymru yn deg

Mae'n helpu i wneud i bawb deimlo'n ddiogel ac i deimlo eu bod yn cael eu parchu

Mae'n helpu i wneud yn siŵr fod pawb yn gallu cael beth sydd ei angen arnynt

Mae'n helpu i wneud yn siŵr nad yw pobl yn cael eu trin yn wahanol

Ni ddylai pobl gael eu trin yn wahanol oherwydd

Oedran

Os ydynt yn **hen** neu'n **ifanc**

Anabledd

Os ydynt yn **anabl**

Rhywedd

Os ydynt yn **wryw** neu'n **fenyw**

Ni ddylai pobl gael eu trin yn wahanol oherwydd eu rhywioldeb

Os ydy rhywun yn **strêt**
Os ydy **dynes** yn caru **dyn**
Os ydy **dyn** yn caru **dynes**

Os ydy rhywun yn **hoyw**
Os ydy **dyn** yn caru **dyn** arall

Os ydy rhywun yn **lesbiad**
Os ydy **dynes** yn caru **dynes** arall

Os ydy rhywun yn **ddeurywiol**
Os ydy rhywun yn caru **dynion** neu **ferched**

Ni ddylai pobl gael eu trin yn wahanol oherwydd

Hil

Os ydynt yn dod o wlad arall neu os oes lliw gwahanol ar eu croen

Iaith

Os ydynt yn siarad iaith wahanol

Crefydd neu gred

Os ydynt yn credu yn rhywbeth ai peidio

Ni ddylai pobl gael eu trin yn wahanol oherwydd eu

Hunaniaeth o ran rhywedd

Os ydynt wedi cael eu geni'n **wryw** ond yn dewis byw eu bywyd fel **benyw**

Os ydynt wedi cael eu geni'n **fenyw** ond yn dewis byw eu bywydau fel **gwryw**

Statws priodasol

Dyn a **dynes** wedi priodi

Os ydy dau **ddyn** wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil

Os ydy ddwy **ddynes** wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil

Beichiogrwydd

Os ydy dynes yn feichiog

Os ydy dynes wedi cael babi'n ddiweddar

Pwrpas y cynllun ydy sicrhau:

Bod pobl sy'n **byw** yng Ngogledd Cymru yn cael eu trin yn deg

Bod pobl sy'n **gweithio** yng Ngogledd Cymru yn cael eu trin yn deg

Bod pobl sy'n **ymweld** â Gogledd Cymru yn cael eu trin yn deg

Pwy sy'n helpu i ysgrifennu'r **cynllun?**

Rheolwyr a **Staff** y Gwasanaeth Tân ac Achub

Grwpiau cymunedol a gwahanol sefydliadau

Pobl sy'n **byw** yng **Ngogledd Cymru**

Maent yn helpu'r Gwasanaeth i benderfynu beth ddylai gael ei ysgrifennu yn y cynllun

Byddant yn helpu'r Gwasanaeth i benderfynu beth fydd yn cynllun yn ceisio ei wneud dros y 4 blynedd nesaf

Pwy fydd yn gwneud yn siŵr fod y cynllun yn digwydd?

Mae'r holl staff sy'n gweithio i'r Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod Tân yn gwneud yn siŵr fod pawb yn cael ei drin yn deg

Beth fydd y Gwasanaeth yn ei wneud?

Bydd y Gwasanaeth yn:

Gwneud yn siŵr ei fod yn siarad gyda phobl am y gwaith y mae'r Gwasanaeth yn ei gynllunio

Gostwng nifer y tanau mewn cartrefi

Cynyddu'r siawns am swydd i bobl a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd i fynd i mewn i fyd gwaith.

Lleihau'r risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru



Annog mwy o bobl i fod yn rhan o'r broses o benderfynu sut caiff gwasanaethau tân ac achub eu darparu yng Ngogledd Cymru.

Gwella mynediad at wybodaeth a sut i gyfathrebu â'r Gwasanaeth, a gwella mynediad corfforol at adeiladau'r gwasanaeth tân ac achub sy'n agored i'r cyhoedd.

Sut mae'r gwasanaeth yn gwneud yn siŵr fod y cynllun yn digwydd?

Mae'n bwysig i'r Gwasanaeth ei fod yn trin pawb yn deg

Mae'r Gwasanaeth yn gwneud hyn drwy asesiadau effaith ar gydraddoldeb

Mae asesiad effaith ar gydraddoldeb yn edrych beth mae'r Gwasanaeth yn ei wneud i fod yn siŵr ei fod yn deg i bawb

Mae'r cynllun yn addo y byddant yn parhau i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb am y 4 blynedd nesaf.

Sut bydd y Gwasanaeth yn gwneud yn siŵr fod y cynllun yn digwydd?

Bydd y Gwasanaeth yn edrych ar y cynllun yn fanwl iawn i ofalu ei fod yn helpu pobl yng Ngogledd Cymru

Bob blwyddyn, bydd y Gwasanaeth yn ysgrifennu adroddiad i ddweud faint o waith sydd wedi cael ei wneud yn y cynllun

Gallwch gael yr adroddiadau os cysylltwch ag Ymgynghorydd Cydraddoldeb y Gwasanaeth:

Ffôn 01745 535250

E-bost sue.jones@gwastan-gogcymru.org.uk

Comment [MJ1]: E-BOST